# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 22 Ionawr 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(107)

### 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd y 12 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

### 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.29

### 3. Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Y wybodaeth ddiweddaraf am Ddarparu Gwasanaethau Addysg yng Nghymru yn y Dyfodol

Dechreuodd yr eitem am 14.43

### 4. Datganiad gan y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth: Y wybodaeth ddiweddaraf am Ardaloedd Menter

Dechreuodd yr eitem am 15.13

### Cynnig I Atal Rheol Sefydlog 11.16, 12.20(I) A 27.7 I Ganiatáu I'r Ddwy Eitem Nesaf O Fusnes Gael Eu Trafod (5 Munud)

Dechreuodd yr eitem am 15.45

**NDM5153 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal Rheol Sefydlog 11.16, Rheol Sefydlog 12.20(i) a Rheol Sefydlog 27.7 er mwyn caniatáu i NNDM5151 ac NNDM5152 gael eu hystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd

Mawrth 22 Ionawr 2013.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**
**Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i drafod y ddwy eitem a ganlyn gyda'i gilydd ond gan bleidleisio arnynt ar wahân.**

### 5. Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2013

Dechreuodd yr eitem am 15.46

**NNDM5151 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2013 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Ionawr 2013.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

### 6. Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2013

**NNDM5152 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2013 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Ionawr 2013.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

### 7. Cynllun Cychod Pysgota (Dyfeisiau Olrhain Drwy Loeren a Darlledu Data Gweithgareddau Pysgota yn Electronig) (Cymru) 2012

Dechreuodd yr eitem am 16.10

**NDM5141 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o Gynllun Cychod Pysgota (Dyfeisiau Olrhain Drwy Loeren a Darlledu Data Gweithgareddau Pysgota yn Electronig) (Cymru) 2012 yn cael ei

lunio yn unol â’r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Rhagfyr 2012.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**8. Dadl Cyfnod 3 o dan Reol Sefydlog 26.44 ar y Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru)**

Dechreuodd yr eitem am 16.17

Yn unol â Rheol Sefydlog 26.36, mae’r gwelliannau i gael eu gwaredu yn y drefn y mae’r adrannau a’r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil.

Mae’r gwelliannau wedi cael eu grwpio at ddibenion y ddadl ac fe’u trafodir yn ôl y grwpiau a ganlyn:

**1.Hysbysu am sgoriau hylendid bwyd a'u cyhoeddi**
12, 1, 13, 2, 14, 3

**2.Cyhoeddi sgoriau hylendid bwyd ar ddeunydd hyrwyddo**
9, 21, 22, 10, 23, 11, 25, 5, 8

**3. Y gofyniad i arddangos sticeri sgôr hylendid bwyd lluosog**
4, 7

**4. Troseddau**
24, 26, 27

**5. Dyletswyddau yr Asiantaeth Safonau Bwyd**
15, 16, 17, 18, 19

**6. Y defnydd o dderbyniadau cosb benodedig**
6

**7.Diwygio cyfnodau i gydymffurfio â dyletswyddau**
20

**Cynhaliwyd y pleidleisiau yn y drefn a nodir yn y Rhestr o Welliannau wedi’u Didoli:**

**Tynnwyd gwelliant 12 yn ôl.**

**Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Ni chynigwyd gwelliant 13.**

**Derbyniwyd gwelliant 12 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gan fod gwelliant 2 wedi'i dderbyn, methodd gwelliant 14.**

**Derbyniwyd gwelliant 3 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 9:

| For | Abstain | Against | Total |
|---|---|---|---|
| 25 | 0 | 26 | 51 |

**Gwrthodwyd gwelliant 9.**

**Gan fod gwelliant 9 wedi'i wrthod, methodd gwelliannau 10 ac 11.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 21:

| For | Abstain | Against | Total |
|---|---|---|---|
| 25 | 0 | 26 | 51 |

**Gwrthodwyd gwelliant 21.**

**Gan fod gwelliant 21 wedi'i wrthod, methodd gwelliannau 22, 23 a 25.**

**Derbyniwyd gwelliant 4 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 24:

| For | Abstain | Against | Total |
|---|---|---|---|
| 21 | 0 | 31 | 52 |

**Gwrthodwyd gwelliant 24.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 26:

| For | Abstain | Against | Total |
|---|---|---|---|
| 21 | 0 | 31 | 52 |

**Gwrthodwyd gwelliant 26.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 27:

| For | Abstain | Against | Total |
|---|---|---|---|
| 21 | 0 | 31 | 52 |

**Gwrthodwyd gwelliant 27.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| For | Abstain | Against | Total |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 52 | 0 | 0 | 52 |

**Derbyniwyd gwelliant 5.**

**Tynnwyd gwelliant 15 yn ôl.**

**Derbyniwyd gwelliant 16 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Derbyniwyd gwelliant 17 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Derbyniwyd gwelliant 18 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Derbyniwyd gwelliant 19 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Derbyniwyd gwelliant 6 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 20:

| For | Abstain | Against | Total |
|---|---|---|---|
| 26 | 0 | 27 | 53 |

**Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Llywydd ei phleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd y gwelliant.**

**Derbyniwyd gwelliant 7 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Derbyniwyd gwelliant 8 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Barnwyd bod holl adrannau ac atodlenni'r Bil wedi'u derbyn, gan ddod â thrafodion Cyfnod 3 i ben.**

## 9. Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo'r Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru).

Dechreuodd yr eitem am 17.20

Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i gymeradwyo'r Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru)

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 10. Dadl ar Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd Pobl Hŷn

Dechreuodd yr eitem am 17.31

**NDM5141 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Comisiynydd Pobl Hŷn ar gyfer 2011-12, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Ionawr 2013.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio'n agosach gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru i ddatblygu'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru (Cam 3).

**Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu dulliau clir o fonitro urddas a gofal i bobl hŷn o ganlyniad i 'Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well - Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru'.

**Derbyniwyd gwelliant 2 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymateb i'r argymhellion yn yr adroddiad 'Llais, Dewis a Rheolaeth' i ddatblygu gwasanaeth eirioli cadarn ac annibynnol ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru.

**Derbyniwyd gwelliant 3 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM5141 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Comisiynydd Pobl Hŷn ar gyfer 2011-12, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Ionawr 2013.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio'n agosach gyda Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru i ddatblygu'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru (Cam 3).

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddatblygu dulliau clir o fonitro urddas a gofal i bobl hŷn o ganlyniad i 'Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well – Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru'.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ymateb i'r argymhellion yn yr adroddiad 'Llais, Dewis a Rheolaeth' i ddatblygu gwasanaeth eirioli cadarn ac annibynnol ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru.

**Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**Cyfnod Pleidleisio**

Ni chafwyd Cyfnod Pleidleisio.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:17

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 23 Ionawr 2013**